Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Garner
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

5 Mehefin 2015

Annwyl Huw ac Isobel,

**Cynllun Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2015-2016**

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn y cyfarfod ar 21 Mai 2015, pan fu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod Cynllun Blynyddol 2015-16.

Yn y cyfarfod, gwnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth o ran tri phwnc:

- faint o geisiadau y byddwch yn eu cael gan Aelodau'r Cynulliad i ymchwilio i gyrff mewn blwyddyn;
- copi o'r dadansoddiad y soniwyd eich bod wedi'i wneud yn dilyn digwyddiadau arfer da; ac
- cytunwyd hefyd i dynnu sylw'r Aelodau at eich gwaith diweddaraf o ran yr agenda atal yn y GIG, cyn cylch y gyllideb eleni.

Yn ogystal â hyn, roedd gan yr Aelodau rai cwestiynau y byddem yn gwerthfawrogi eich barn arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod adnoddau ychwanegol o £250,000 wedi'u darparu i Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013-14 i ganiatáu i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiadau heb eu cynllunio i faterion a oedd yn achosi pryder i'r cyhoedd, heb i hynny effeithio ar allu'r sefydliad i ddarparu astudiaethau cenedlaethol a gynlluniwyd ymlaen llaw.

Hoffai'r Aelodau gael rhywfaint o eglurhad ar sut y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu sut i wario'r adnodd ychwanegol hwn. Byddai'n ddefnyddiol gan yr Aelodau pe bai modd i chi amlinellu'r meini prawf a ddefnyddir i gychwyn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

ymchwiliad heb ei gynllunio, a chost pob ymchwiliad a wnaed hyd yma, sydd wedi defnyddio'r £250,000 ychwanegol.

Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd mewn gwybod beth yw'r amcangyfrif o'r gost i gyrff, gan gynnwys amser staff, bob blwyddyn, ar gyfer archwiliadau rheolaidd, ac eich barn ar y gost i sefydliad sydd yn destun ymchwiliad heb ei gynllunio (sydd wedi defnyddio'r adnoddau ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith).

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd**